

GWADDOL NIWCLEAR PRYDAIN: CYFIAWNDER I BAWB



Photo: National Archives of Australia (public domain)

Ar ôl bomio Japan ym 1945, ymunodd Prydain â ras arfogi'r Rhyfel Oer, gan fynd ati i gynnal ei phroffion atomig ei hun ar gylchynysoedd yn y Môr Tawel ac ym mherfeddwlad Awstralia. Roedd milwyr yn gwasanaethu rai milltiroedd yn unig oddi wrth y ffrwydriadau, heb ddim (neu fawr ddim) offer diogelu, a chafodd peilotiaid a chriwiau ar y ddaear y dasg o gasglu llwch ymbelydrol a dihalogi awyrennau.

Rhwng 1952 a 1963, roedd 39,000 o wyddonwyr, sifiliaid a milwyr o Brydain a Gwledydd y Gymanwlad yn gweithio ar safleoedd profion niwclear tra cafodd 45 o fomiau atomig a hydrogen eu ffrwydro. Er bod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cael ei rhybuddio ynglŷn â pheryglon ymbelydredd o ganol y 1960au ymlaen, parhaodd Prydain i gynnal profion dan y ddaear yn Anialdir Nevada tan 1991 – gan adleoli cymunedau Brodorol a halogi eu tir am filoedd o flynyddoedd.

Dioddefodd nifer o filwyr a chyn-filwyr ganserau prin, anffrwythlondeb ac anhwylderau cronig; gwelwyd cyfraddau camesgor uchel ymhlith eu partneriaid; ac yn aml, ganwyd eu plant gydag anableddau a namau geni difrifol, a arweiniodd at farwolaeth nifer o'r plant.

Eisiau rhagor o wybodaeth?
labrats.international

OEDDECH CHI’N GWYBOD?

Fe wnaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn gamarwain nifer o achosion llys trwy wrthod datgelu gwybodaeth yn ymwneud â'r profion niwclear, a allai fod wedi cefnogi hawliadau'r cyn-filwyr am iawndal. Roedd y camarwain hwn yn cynnwys canlyniadau profion gwaed ac wrin a gynhaliwyd ar gyn-filwyr i fonitro effaith yr ymbelydredd. Dinistriwyd nifer o'r cofnodion hyn, a honnodd y Weinyddiaeth Amddiffyn na chynhaliwyd y profion o gwbl. Mewn gwirionedd, cafodd miloedd o filwyr eu samplu, ac mae o leiaf 370 o gofnodion yn dal i fodoli.

Hefyd, comisiynodd y Weinyddiaeth Amddiffyn astudiaethau a ddaeth i'r casgliad na chât ymbelydredd effaith hirdymor ar y corff. Derbynnir yn eang bod cyfyngiadau sylweddol i'r astudiaethau hyn.

PAM RYDYM ANGEN CYFRAITH HILLSBOROUGH

“Dyma ymgais droseddol i gelu'r gwirionedd, ar raddfa enfawr, a dim ond y Senedd a all ei wrthdroi. Pam y mae pethau'n cael eu celu i'r fath raddau? Yn fy marn i, gan fod pethau'n mynd at galon a chraidd gwladwriaeth Prydain”

Andy Burnham, Maer Manceinion Fwyaf

“Os ydych yn disgwyl i'r dynion hyn farw gan eu bod yn eu hwythdegau, rydych yn camgymryd yn fawr – oherwydd mae eu disgynyddion yn camu i'r adwy ac maen nhw wedi ymchwilio'n fanwl i'r mater”

Alan Owen, Sylfaenydd of LABRATS